OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 864

# Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 6, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2019

**Gohirio'r dyddiad perthnasol ar gyfer asiantaeth berthnasol sy'n ddarostyngedig i broses ganslo**

**5.**—(1) Pan fo asiantaeth berthnasol, ar y dyddiad perthnasol a bennir yn erthygl 4(4), yn ddarostyngedig i broses ganslo, caiff y dyddiad perthnasol ei ohirio tan y dyddiad sydd 6 wythnos ar ôl y dyddiad pan benderfynir yn derfynol ar y broses ganslo.

(2) Mae asiantaeth berthnasol yn ddarostyngedig i broses ganslo os yw hysbysiad o gynnig i ganslo o dan adran 17(4)(a) o Ddeddf 2000 wedi ei roi i'r darparwr DSG cyn y dyddiad perthnasol a bennir yn erthygl 4(4) ac na phenderfynir yn derfynol ar y broses erbyn y dyddiad hwnnw.

(3) Penderfynir yn derfynol ar broses ganslo—

(a) pan benderfynir ar unrhyw apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn y canslo neu pan roddir y gorau i unrhyw apêl o'r fath;

(b) pan yw hysbysiad o benderfyniad o dan adran 19(3) o Ddeddf 2000 wedi ei gyflwyno a bod y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y caniateir i apêl gael ei gwneud i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ynddo wedi dod i ben; neu

(c) pan hysbysir y darparwr DSG nad yw'r hysbysiad o gynnig wedi ei gadarnhau neu fod yr hysbysiad wedi ei dynnu'n ôl.